## Taflen wybodaeth i'r gofalwr/cysurwr

- **Os ydych yn feichiog yna ni ddylech** wirfoddoli **i gynorthwyo gyda'r archwiliad radiograff.** Os gofynnir i chi gymryd rhan rhowch wybod i'r radiograffydd/nyrs ddeintyddol/deintydd eich bod yn feichiog.
- Gofynnwyd i chi ddarparu cymorth yn ystod y cysylltiad radiograffig. Mae'r canllawiau canlynol wedi'u cynllunio i sicrhau bod unrhyw ddos o ymbelydredd a gewch mor isel â phosibl.
- Nid oes unrhyw rwymedigaeth arnoch i helpu ond os byddwch yn penderfynu cynorthwyo byddwch yn cael ffedog blwm i'w gwisgo. Rhaid i chi wisgo'r ffedog blwm yn unol â chyfarwyddiadau'r radiograffydd/deintydd a rhaid i chi gadw y tu allan i gyfeiriad y prif belydr-X (Ddim yn llinell golwg y pelydr-x). Efallai y gofynnir i chi ddal derbynnydd y ddelwedd gyda daliwr arbennig. Bydd y radiograffydd/deintydd yn dweud wrthych sut i ddal y rhain. **Rhaid i chi beidio â dal derbynnydd y ddelwedd â'ch bysedd**
- Mae'r dos ymbelydredd y byddech chi'n ei gael o'r archwiliad yn hynod o isel. Y dos i'r **claf** o lun pelydr-x cyfartalog yw 2µSv, sy'n cyfateb i tua 8 awr o ymbelydredd cefndir naturiol. Mae'r risg o ymbelydredd i'r **claf** o un cysylltiad radiograffig yn fach iawn. Bydd y risg i chi'ch hun yn is na hyn gan na fyddwch ym mhrif linell y pelydr-x.
- Bydd y radiograffydd/nyrs ddeintyddol/clinigwr sy'n tynnu'r lluniau pelydr-x yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

INSERT QR code